**Dyddiadau  ffenestri datgan diddordeb Tachwedd 2024**

| **Cynllun** | **Crynodeb** | **Dyddiadau ffenestri** |
|---|---|---|
| Cynllun Cynllunio Creu Coetir | Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig grantiau o rhwng £1000 a £5000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd. Ar ôl i gynllun gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mi fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i blannu coed a ffensio (Grant Creu Coetir).<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: [https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir](https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir) | Ar agor trwy'r flwyddyn (yn amodol ar gyllideb) |
| Grant Creu Coetir | Mae'r Grant Creu Coetir yn darparu cymorth ariannol i greu ardaloedd coetir mwy o faint neu ardaloedd bach nad ydynt yn gymwys ar gyfer Grantiau Bach – Cynllun Creu Coetir.<br><br>Yr ardal leiaf y gellir gwneud cais ar ei chyfer yw 0.25ha.  Does dim ardal fwyaf.<br><br>Mae'r cynllun yn darparu cyllid ar gyfer plannu coed a gosod ffensys a gatiau.<br><br>Mae hefyd yn cynnig 12 mlynedd o daliadau premiwm a chynnal a chadw (i wneud iawn am golli incwm amaethyddol).<br><br>Nid yw plannu coed fel rhan o'r cynllun yn golygu colli taliadau na chymhwysedd y tir ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS),<br><br>Mwy o wybodaeth:<br>[https://www.llyw.cymru/grant-creu-coetir](https://www.llyw.cymru/grant-creu-coetir) | 4 Mawrth 2024 – 13 Rhagfyr 2024 |
| Cynllun Adfer Coetir  (WRS) | Mae'r WRS yn darparu gwaith cyfalaf ar gyfer ail-stocio, ffensio a gweithgareddau cysylltiedig ar safleoedd lle ceir coed llarwydd a hyd at 50% o'r tir o dan rywogaethau heblaw am goed llarwydd. Oherwydd effaith Phytophthora ramorum ar bren coed llarwydd ifanc, ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn rydym wedi cynnwys opsiwn ichi ymgeisio am grant ar gyfer cwympo coed llarwydd ifanc (o dan 25 oed). Nid oes grant ar gael ar gyfer cwympo coed nad ydynt yn goed llarwydd.<br><br>Y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y ffenestr Datganiadau o Ddiddordeb hon yw £1 miliwn.<br><br>I fod yn gymwys i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb rhaid ichi allu cadw at y dyddiadau canlynol:<br><br>• cyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb gyda'r Drwydded Cwympo, Cais am Drwydded Cwympo gyda'r rhif neu'r SPHN rhwng 11 Tachwedd 2024** a 28 Chwefror 2025<br>• ymateb i ganlyniadau rowndiau dewis rheolaidd, bydd y gyntaf ar 9 Rhagfyr 2024 | 11 Tachwedd 2024 i 28 Chwefror 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| | • cwblhau'r holl waith sefydlu a chyfalaf a chyflwyno hawliadau ar gyfer taliad erbyn 31 Mawrth 2026<br><br>Am fwy o wybodaeth:<br><br>https://www.llyw.cymru/cynllun-adfer-coetir-11-tachwedd-2024-i-28-chwefror-2025 | |
| Tyfu er mwyn yr Amgylchedd | Mae'r ffenestr ymgeisio hon yn cefnogi sefydlu cnydau sy'n cael eu hau yn y gwanwyn a'r haf a all arwain at welliannau ym mherfformiad amgylcheddol busnes y fferm.<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys gwyndynnydd cymysg, cnydau protein a chnydau ŷd heb eu chwistrellu.<br><br>Mae'r holl gnydau cymwys a'r gofynion wedi'u rhestru ac mae'r taliad safonol fesul hectar wedi'i bennu.<br><br>Mwy o wybodaeth:<br><br>https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-dechrau-busnes-garddwriaeth-ffenestr-3-llyfryn-rheolau-html | 4 Tachwedd i 13 Rhagfyr 2024 |
| Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth | Cynllun i helpu newydd-ddyfodiaid i sefydlu busnesau garddwriaeth masnachol newydd.<br><br>Bydd grant o £3,000 ar gael i bob ymgeisydd, wedi'i ddyfarnu ar ffurf gwaith cyfalaf.<br><br>Mwy o wybodaeth:<br><br>https://gov.wales/small-grants-horticulture-start-up | 4 Tachwedd 2024 i 10 Ionawr 2025 |
| Cynllun Ailgyfeirio Amaethyddol a Garddwriaeth | Mae cyllideb ddangosol o £1.5m wedi'i dyrannu ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn.<br><br>Mae Garddwriaeth ac Arallgyfeirio Amaethyddol yn gynllun grant cyfalaf sydd ar gael i ffermwyr a chynhyrchwyr garddwriaethol presennol yng Nghymru. Amcanion y cynllun yw:<br><br>• helpu i ddatblygu a sefydlu mentrau arallgyfeirio amaethyddol ar ffermydd<br><br>• helpu i ddatblygu a sefydlu mentrau garddwriaethol masnachol<br><br>Mae'r cynllun yn un dewisol. Bydd swm y grant a gynigir yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn, a bydd bob amser y swm lleiaf sydd ei angen i'r buddsoddiad allu fynd yn ei flaen. Os caiff eich cais ei ddewis, rhaid i chi allu cwblhau a hawlio'r holl eitemau Gwaith Cyfalaf erbyn 31 Mawrth 2026.<br><br>Am fwy o wybodaeth:<br><br>https://www.llyw.cymru/cynllun-arallgyfeirio-amaethyddol-garddwriaeth-llyfryn-rheolau-html | 4 Tachwedd 2024 i 17 Ionawr 2025 |